**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Mawrth 2021

Annwyl Nick

Mae copi wedi'i atodi o ganlyniadau Arolwg Gweithwyr y Comisiwn ar gyfer mis Rhagfyr 2020, er eich gwybodaeth. Arolwg 2020 yw'r arolwg blynyddol cyntaf i gael ei ddarparu trwy bartneriaeth newydd gydag arbenigwr annibynnol ar arolygon, a gaffaelwyd mewn partneriaeth â Senedd yr Alban. Bydd hyn yn darparu data meincnod seneddol nad oedd ar gael cyn hyn, er mwyn gallu cymharu.

Mae'r adroddiad yn darllen yn gadarnhaol, ac rwy'n falch ein bod yn cymharu'n ffafriol â data meincnod y sector cyhoeddus a data meincnod ehangach fel ei gilydd, ar draws pob thema ac yn ystod cyfnod mor heriol. Gan edrych i'r dyfodol, mae ein hymrwymiadau yn parhau i fod wedi'u canolbwyntio'n gadarn ar iechyd, llesiant, diogelwch a sgwrs ddwy ffordd gyda'n holl gydweithwyr yn y Comisiwn.

Rhannwyd y canlyniadau hyn gyda chydweithwyr mewn cyfarfod staff diweddar, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd yn ôl yr arfer. Eleni – yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – byddwn hefyd yn cyhoeddi'r canlyniadau ar wefan y Senedd.

Hyderaf y bydd yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi.

Yn gywir

Manon Antoniazzi
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Senedd Cymru

# Arolwg Staff: Canlyniadau 2020

Chwefror 2021



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru yw'r corff sydd wedi ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Y Senedd, fel y'i gelwir, sy'n llunio deddfau ar gyfer Cymru, sy'n cytuno ar drethi Cymru ac sy'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Senedd Cymru**
Adnoddau Dynol

# **Arolwg staff:** Canlyniadau 2020

Chwefror 2021

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb a'r Prif Ddata** | **7-8** |
| **Yr ymatebion i'r holl gwestiynau** | **9-24** |
| Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle | 10-13 |
| Themâu a Chwestiynau'r Senedd | 14-19 |
| Y Cwestiynau a gafodd y Sgôr Uchaf ac Isaf | 20 |
| Cymharu a dadansoddi cwestiynau craidd | 22-24 |
| **Rhestr Termau** | **25-29** |



# Crynodeb

Cafodd yr arolwg hwn o staff Senedd Cymru ei gynnal rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020. A **76%** o'r gweithwyr wedi ymateb i'r arolwg, sgoriodd **77.2%** yn gyffredinol yn fframwaith y Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle a ddefnyddir yn yr arolwg hwn, a **74.3%** yng nghwestiynau craidd y Senedd.

**77.2%**

**SGÔR HAPUSRWYDD YN Y GWEITHLE**

**+ 7.2%**
**Cyfartaledd Byd-eang**

**+ 8.2%**
**Cyfartaledd y Sector Cyhoeddus**

**+ 12.2%**
**Cyfartaledd y DU**

**379**

**O AELODAU STAFF WEDI YMATEB I'R AROLWG**

**76%**
Cyfradd Ymateb

**+14%**
Cyfradd ymateb yn 2018-19

**59%** oedd cyfradd ymateb Llywodraeth Cymru yn ei harolwg diweddaraf.

# Themâu Mynegai Hapusrwydd yn y Gweithle

**77.2%**
Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

**75%**
Rhannu Gwybodaeth

**75.5%**
Galluogi

**73.2%**
Llesiant

**82.4%**
Ennyn Balchder

**80.2%**
Boddhad Gwaith

# Themâu Comisiwn y Senedd

**76.3%**
Fy rheolwr

**68.3%**
Arweinyddiaeth a Rheoli Newid

**66.6%**
Dysgu a Datblygu

**80.1%**
Diwylliant y Sefydliad

**82%**
Fy Nhîm

# Yr ymatebion i'r holl gwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Y Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle

Fframwaith yw'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle sy'n cwmpasu'r chwe sbardun allweddol o ran ymgysylltu â gweithwyr, hapusrwydd a lles: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth, Rhannu Gwybodaeth, Galluogi, Llesiant, Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith.

Yn wahanol i arolygon blaenorol, a gyfrifodd ganran ar sail sgorau canrannol cadarnhaol (cyfanswm y rhai a ddewisodd naill ai 'cytuno', neu 'cytuno'n gryf' yn eu hymatebion), mae'r canrannau yn yr adran hon wedi'u cyfrifo ar sail y sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn, ac a lenwyd drwy ddefnyddio'r raddfa 10 pwynt.



## Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth: 77.2%

**Cymhariaeth â'r sgôr gyffredinol: +7.2%**

**Cymhariaeth â'r sector cyhoeddus: +8.2%**

Dylai pawb mewn sefydliad fwynhau gwobrau llwyddiant. Os nad ydych yn ennill cyflog teg, ni fydd unrhyw gydnabyddiaeth yn gwneud i chi deimlo eich bod yn cael eich gwobrwyo. Rhaid i'ch graddfa gyflog fodloni disgwyliadau ac annog pobl i ymdrechu o'u gwirfodd.

- Rwy'n cael fy nhalu'n deg - **78.3%**
- Rwy'n fodlon ar fy oriau gwaith - **79.3%**
- Rwy'n cael cydnabyddiaeth pan fydda i'n gwneud rhywbeth yn dda - **74%**



## Rhannu Gwybodaeth: 75%

**Cymhariaeth â'r sgôr gyffredinol: +5%**

**Cymhariaeth â'r sector cyhoeddus: +7%**

Mae peidio â rhannu gwybodaeth yn gwneud i weithwyr deimlo eu bod yn rhan ddibwys o'r busnes. Mae angen i bob un ohonom gael golwg realistig, o ffynonellau da, ar y sefydliadau rydym yn gweithio iddynt, ni waeth beth fo teitl eich swydd. Gall lefel y manylder a gawn fod yn wahanol, ond gwybodaeth yw sail y penderfyniadau a wnawn bob dydd.

- Rwy'n cael digon o wybodaeth i wneud fy swydd yn dda - **77.5%**
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â mi yn hwylus ac yn agored - **73.3%**
- Mae fy safbwyntiau yn cael eu clywed yn y gwaith - **74.3%**



## Galluogi: 75.5%

### Cymhariaeth â'r sgôr gyffredinol: +3.5%

### Cymhariaeth â'r sector cyhoeddus: +5.5%

Rhaid i alluogi gweithwyr fod yn un o nodau diamheuol pob sefydliad. Rhaid i bob gweithiwr fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, trwy wrando ar eu syniadau a chynnwys eu hawgrymiadau yn strategaethau'r cwmni. Yn anorfod, bydd profiadau personol yn creu atebion gwahanol, a thrwy wrando ar bob safbwynt, gellir dod sicrhau'r canlyniad gorau.

- Mae gen i'r hyn sydd ei angen arnaf i wneud fy swydd yn dda - **78%**
- Rwy'n cael gwneud penderfyniadau - **73.4%**
- Mae eraill yn ymddiried ynof i wneud penderfyniadau - **75.1%**



## Llesiant: 73.2%

### Cymhariaeth â'r sgôr gyffredinol: +6.2%

### Cymhariaeth â'r sector cyhoeddus: +7.2%

Mae iechyd a lles wedi'u rhannu'n dri maes allweddol; corfforol, emosiynol ac ariannol. Drwy fynd i'r afael â'r tri, bydd cyflogwyr yn gwella lefelau ymgysylltu a chynhyrchiant.

- Mae fy llesiant yn bwysig i'm cyflogwr - **79.6%**
- Anaml y byddaf yn teimlo'n ofidus am waith - **62.8%**
- Rwy'n hapus â fy amgylchedd gwaith presennol (yn gweithio gartref/ gweithio yn y Senedd/ cyfuniad o'r ddau) - **76.4%**
- Rwy'n teimlo'n hapus yn y gwaith - **73.9%**



# Ennyn Balchder: 82.4%

### Cymhariaeth â’r sgôr gyffredinol: +13.4%

### Cymhariaeth â’r sector cyhoeddus: +11.4%

Bydd gweithwyr sy'n caru'r hyn y maent yn ei wneud ac yn teimlo'n falch o ble maent yn gweithio yn sôn yn agored ac yn gadarnhaol amdano wrth gydweithwyr, darpar weithwyr, cwsmeriaid a phobl yn eu cymuned. Pan fydd pobl yn gofyn y cwestiwn anochel hwnnw wrth ddod i adnabod ei gilydd: 'ble rydych chi'n gweithio?' - byddwch yn clywed y boddhad yn eu llais wrth ymateb.

- Rwy'n gwneud rhywbeth gwerthchweil - **79.7%**
- Rwy'n falch o weithio i'm sefydliad - **84.5%**
- Byddwn yn argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i'm sefydliad - **83.1%**



# Boddhad Gwaith: 80.2%

### Cymhariaeth â’r sgôr gyffredinol: +8.2%

### Cymhariaeth â’r sector cyhoeddus: +10.2%

Mae llawer o elfennau i deimlo'n fodlon yn y gwaith, ond dro ar ôl tro, cyfeirir at ddau reswm allweddol: datblygiad personol a chryfder eich perthynas â'ch rheolwr llinell.


- Rwy'n cael fy nhrin â pharch - **81.7%**
- Rwy'n mwynhau fy swydd - **81.3%**
- Mae gen i berthynas dda â'm rheolwr - **87.8%**
- Rwy'n cael fy natblygu - **70.1%**

## Cymhariaeth â sgorau'r Sector Cyhoeddus a rhai Byd-eang

Mae'r graff isod yn dangos sgorau'r Senedd o'u cymharu â sgorau'r Sector Cyhoeddus a rhai byd-eang ar gyfer pob un o'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle. Mae'n galonogol gweld bod sgorau cyffredinol Comisiwn y Senedd ym mhob un o'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle yn uwch na sgorau Sector Cyhoeddus a rhai Byd-eang.

Gwelir y bwlch mwyaf sylweddol ynghylch Ennyn Balchder, lle mae sgôr gweithwyr y Senedd **82.4%** **+11.4%** a **+13.4%** yn uwch na chyfartaleddau'r sector cyhoeddus a'r sgôr fyd-eang. Ychydig ar ôl hyn mae Boddhad Gwaith, a sgôr gweithwyr y Senedd o **80.2%** yn cynyddu **+10.2%** a **+7.8%** yn uwch na sgorau'r Sector Cyhoeddus a rhai Byd-eang yn eu tro. Gwelwyd bwlch nodedig hefyd rhwng gweithwyr y Senedd o'u cymharu â sector cyhoeddus a sgorau Byd-eang (**+8.2%** a **+7.2%**) a (**+7.2%** a **+6.2%**).

Mae gweithwyr y sector cyhoeddus yn sgorio'n is na chyfartaledd y diwydiant mewn pump o'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle – Ennyn Balchder yw'r eithriad. Dyma glod pellach i sgorau gweithwyr y Senedd, felly, gan eu bod yn perfformio'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer pob Cam at Hapusrwydd yn y Gweithle.




# Themâu Comisiwn y Senedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn rhai a ddefnyddiwyd yn arolygon staff blynyddol blaenorol Comisiwn y Senedd, ac maent yn debyg i gwestiynau a welir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Rydym wedi dewis cynnwys y cwestiynau hyn eto, gan eu bod yn ein galluogi i gael rhyw fesur o sut rydym wedi perfformio o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Fel yr adrannau blaenorol, cyfrifwyd y canrannau ar gyfer y cwestiynau hyn ar sail y sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn, ac a lenwyd drwy ddefnyddio'r raddfa 10 pwynt.

## Fy rheolwr: 76.3%



- Mae fy rheolwr yn fy nghymell i fod yn fwy effeithiol yn fy swydd - **76.7%**
- Mae fy rheolwr yn fy helpu i ddeall fy amcanion a sut rwy'n cyfrannu i flaenoriaethau'r Senedd - **77.3%**
- Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau- **84.5%**
- Ar y cyfan, mae gen i ffydd ym mhenderfyniadau fy rheolwr llinell - **82.8%**
- Mae fy rheolwr yn nodi ac yn dathlu cyfraniadau unigolion a'r tîm- **80.8%**
- Rwy'n cael adborth rheolaidd ar fy mherfformiad - **75.4%**
- Mae'r adborth rwy'n ei gael yn fy helpu I wella fy mherfformiad - **75.2%**
- Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm - **65.7%**
- Rwy'n cael sgyrsiau hyfforddi rheolaidd, parhaus gyda fy rheolwr- **68.7%**

## Arweinyddiaeth a Rheoli Newid: 68.3%




- Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol- **69.6%**
- Rwy'n credu bod camau gweithredu'r Tîm Arwain yn gyson â gerthoedd Comisiwn y Senedd - **70.8%**
- Rwy'n credu bod gan y Tîm Arwain strategaeth glir ar gyfer y dyfodol- **67.4%**
- Ar y cyfan, mae gen i ffydd ym mhenderfyniadau y Tîm Arwain - **70.6%**
- Pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd, maen nhw'n newidiadau er gwell fel arfer - **68.8%**
- Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd- **61.1%**
- Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol - **69.4%**

## Dysgu a Datblygu: 66.6%




- Rwy'n gallu cael gafael ar y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan fo angen- **70.2%**
- Rwyf wedi defnyddio cyfleoedd dysgu a datblygu y cefais dros y 12 mis diwethaf i wella fy ngwybodaeth a'm perfformiad - **64.2%**
- Mae'r gweithgareddau dysgu a datblygu rwyf wedi'u cyflawni wrth weithio i Gomisiwn y Senedd yn fy helpu i ddatblygu fy ngyrfa- **65.3%**

## Diwylliant y Sefydliad: 80.1%



- Rwy'n credu bod Comisiwn y Senedd yn parchu gwahaniaethau rhwng unigolion (e.e. diwylliant, ffyrdd o weithio, cefndiroedd, syniadau ac ati)- **79.4%**
- Mae Comswiwn y Senedd wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol- **79.1%**
- Rwy'n falch pan rwy'n dweud wrth bobl eraill fy mod i'n rhan o Gomisiwn y Senedd - **81.9%**


## Fy Nhîm: 82%




- I ba raddau ydych chi'n cytuno: Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi a bod cysylltiad rhyngof fi â'm tîm - **79.9%**
- Gellir dibynnu ar y bobl yn fy nhîm i'm helpu pan fydd pethau'n anodd yn fy swydd - **85.1%**
- Mae'r bobl ar fy nhîm yn cydweithio i ganfod ffyrdd o wella'r gwasanaeth rydym ni'n ei ddarparu - **83.1%**
- Mae'r bobl ar fy nhîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd newydd, gwell o wneud pethau- **79.9%**

## Urddas a pharch

**Rwy'n gwybod sut i gael gafael ar gyngor ar ymddygiad amhriodol.**




**Rwy'n gwybod sut i roi gwybod am achosion o ymddygiad amhriodol yn y gweithle.**



# Y normal newydd

Mewn ymateb i fesurau cadw pellter cymdeithasol yn sgil Covid-19, dechreuodd Comisiwn y Senedd gynnal Arolygon Pwls tri misol i fesur iechyd, llesiant ac ymgysylltiad staff ar draws y sefydliad.

Yn ogystal ag ychwanegu cwestiynau newydd (*Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi yn y gwaith yn sgil y mesurau cadw pellter cymdeithasol/cyfyngiadau symud parhaus*) gwnaethom gynnwys nifer o gwestiynau allweddol o'r Arolygon Pwls er mwyn parhau i feincnodi ein cynnydd ein hunain a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.


Er mwyn sicrhau mesur cywir wrth gymharu, cyfrifwyd yr ymatebion canlynol yn y ffordd ganlynol:

Mae'r ymatebion i *Pa sgôr fyddech chi'n ei rhoi i'ch llesiant corfforol(?)* a *Pa sgôr fyddech chi'n ei rhoi i'ch llesiant meddyliol (?)* wedi'u cyfrifo ar sail y sgôr gyfartalog ar gyfer pob cwestiwn.


- Mae'r ymateb i *Mae fy rheolwr llinell yn cyfathrebu'n aml, yn bwyllog ac yn agored - rwy'n deall beth sy'n bwysig a beth y dylwn i ganolbwyntio arno* wedi'i gyfrifo ar sail cyfran y gweithwyr a ddewisodd naill ai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf'.

- Mae'r ymateb i'r cwestiwn *Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi yn y gwaith yn sgil y mesurau y cadw pellter cymdeithasol/cyfyngiadau symud parhaus* hefyd wedi'i gyfrifo ar sail sgôr gyfartalog i sicrhau bod modd i ni fesur yn gywir drwy gymharu â hi os caiff y cwestiwn ei ddefnyddio mewn Arolygon Pwls yn y dyfodol.


## Pa sgôr fyddech chi'n ei roi i'ch llesiant corfforol?





## Pa sgôr fyddech chi'n ei roi i'ch llesiant meddyliol?



**Mae fy rheolwr llinell yn cyfathrebu'n aml, yn bwyllog ac yn agored. Rwy'n deall beth sy'n bwysig a beth y dylwn i**




**Mae fy rheolwr llinell yn cyfathrebu'n aml, yn bwyllog ac yn agored. Rwy'n deall beth sy'n bwysig a beth y dylwn i. Average score = 4.2**



# Y cwestiynau a gafodd y sgôr uchaf ac isaf

Yn seiliedig ar yr ymateb canrannol cyfartalog ar gyfer pob cwestiwn, mae'r tabl canlynol yn dangos y cwestiynau a gafodd yr ymatebion uchaf ac isaf.

Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar sgôr gymedrig pob cwestiwn.

## Y pum cwestiwn a gafodd y sgôr uchaf yn yr arolwg hwn oedd:

| | |
|---|---|
| Mae gen i berthynas dda â'm rheolwr. | **87.8%** |
| Gellir dibynnu ar y bobl yn fy nhîm i'm helpu pan fydd pethau'n anodd yn fy swydd | **85.1%** |
| Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau | **84.5%** |
| Rwy'n falch o weithio i'm sefydliad. | **84.5%** |
| Byddwn yn argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i'm sefydliad. | **83.1%** |
| Mae'r bobl ar fy nhîm yn cydweithio i ganfod ffyrdd o wella'r gwasanaeth rydym ni'n ei ddarparu | **83.1%** |

## Y pum cwestiwn a gafodd y sgôr isaf yn yr arolwg hwn oedd:

| | |
|---|---|
| Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm | **65.7%** |
| Mae'r gweithgareddau dysgu a datblygu rwyf wedi'u cyflawni wrth weithio i Gomisiwn y Senedd yn fy helpu i ddatblygu fy ngyrfa | **65.3%** |
| Rwyf wedi defnyddio cyfleoedd dysgu a datblygu y cefais dros y 12 mis diwethaf i wella fy ngwybodaeth a'm perfformiad | **64.2%** |
| Anaml y byddaf yn teimlo'n ofidus am waith. | **62.8%** |
| Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd | **61.1%** |



# Cwestiynau craidd

Mae 9 cwestiwn craidd wedi'u cynnwys yn yr arolwg staff ers mis Chwefror 2012 (ac eithrio, 'Rwy'n cael fy nhrin â pharch gan y bobl rwy'n gweithio gyda nhw' na chafodd ei gynnwys yn arolwg mis Awst 2013). Rhwng arolygon Chwefror 2012 a 2020-21 bu gwelliant yng nghanran yr ymatebion cadarnhaol ym mhob cwestiwn craidd.

Er mwyn sicrhau mesur i'w gymharu'n gywir ag arolygon blaenorol staff y Senedd, cyfrifwyd cyfran y gweithwyr a ddewisodd naill ai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' ar ffurf canran gyfartalog o ymatebion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r cwestiynau craidd. Gan fod ymatebion arolwg 2020-21 yn gofyn am ateb ar raddfa 10 pwynt, defnyddiwyd y mesurau y cytunwyd arnynt i gyfrifo'r canrannau cyfartalog.

**Cytuno'n gryf** = Sgorau rhwng 9 a 10

**Cytuno** = Sgorau rhwng 6 ac 8

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** = Sgorau o 5

**Anghytuno** = Sgorau rhwng 2 a 4

**Anghytuno'n gryf** = Sgorau rhwng 0 ac 1

Fel y dangosir yn y tabl a'r graff canlynol, yn achos yr holl gwestiynau craidd yn yr arolwg eleni gwelwyd cynnydd cadarnhaol o'i gymharu ag arolwg blaenorol y Senedd yn 2018-19.

Gwelwyd y gwelliant mwyaf sylweddol yn achos "Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd", wrth i ymateb cadarnhaol gweithwyr y Senedd dyfu +22.7% o'i gymharu ag arolwg 2018/19.


Y cwestiwn a gafodd yr ymateb cadarnhaol uchaf oedd "Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy marn", a 93.2% o weithwyr y Senedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cwestiwn hwn.

Y cwestiwn a oedd â'r ymateb cadarnhaol isaf oedd "Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd" – a **60.7%** o weithwyr y Senedd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Er gwaethaf y sgôr isel hon, mae'n bwysig nodi bod cynnydd **+22.7%** fel y nodwyd eisoes yn arwydd o welliant eithriadol, o'i gymharu â sgorau arolygon blaenorol. Yn yr un modd, y cwestiwn "Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm" a gafodd yr ail sgôr gadarnhaol isaf (**66.5%**), ond hefyd ail gynnydd cadarnhaol uchaf o'i gymharu ag arolwg blaenorol gweithwyr y Senedd (**+17.3%**).

Gwelwyd y cynnydd cadarnhaol lleiaf, sef **+5.9%,** pan ofynnwyd i weithwyr "Rwy'n cael fy nhrin â pharch", ond mae hyn oherwydd sgorau cryf yn yr arolwg diwethaf o weithwyr a gymerwyd, sydd yn y pen draw yn cyfyngu ar y twf cadarnhaol.

# Cymhariaeth cwestiynau craidd

| | Chwefror 2012 | Gorffennaf 2012 | Awst 2013 | Mehefin 2015 | Mehefin 2016 | Mai 2018 | Rhagfyr 2018 - Ionawr 2019 | Rhagfyr 2020 | % Newid cadarnhaol 2012 - 2021 | % Newid cadarnhaol 2019 - 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Mae fy rheolwr yn nodi ac yn dathlu cyfraniadau unigolion a'r tîm* | 41.2% | 46.5% | 58.6% | 65.0% | 69.8% | 69.2% | 75.3% | 89.8% | **+48.6%** | **+14.5%** |
| *Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd* | 32.6% | 34.6% | 40.3% | 35.9% | 40.7% | 41.4% | 38.0% | 60.7% | **+28.1%** | **+22.7%** |
| *Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm* | 41.2% | 43.5% | 47.8% | 46.7% | 45.6% | 47.8% | 49.2% | 66.5% | **+25.3%** | **+17.3%** |
| *Rwy'n fodlon ar fy oriau gwaith.* | 74.0% | 72.3% | 70.6% | 67.3% | 73.2% | 69.4% | 72.5% | 87.9% | **+13.9%** | **+15.4%** |
| *Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol* | 44.4% | 57.5% | 60.8% | 61.9% | 64.3% | 65.9% | 60.3% | 76.8% | **+32.4%** | **+16.5%** |
| *Byddwn yn argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i'm sefydliad.* | 70.9% | 78.0% | 81.4% | 80.2% | 81.5% | 79.0% | 80.3% | 90.5% | **+19.6%** | **+10.2%** |
| *Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau* | 46.5% | 56.9% | 59.2% | 72.3% | 73.4% | 74.9% | 79.0% | 93.2% | **+46.7%** | **+14.2%** |
| *Rwy'n cael fy nhrin â pharch.* | 70.2% | 67.0% | N/A | 82.0% | 85.4% | 80.9% | 85.1% | 91.0% | **+20.8%** | **+5.9%** |
| *Rwy'n cael digon o wybodaeth i wneud fy swydd yn dda.* | 57.8% | 64.9% | 79.4% | 72.5% | 75.4% | 71.8% | 73.2% | 89.7% | **+31.9%** | **+16.5%** |


Mae fy rheolwr yn nodi ac yn dathlu cyfraniadau unigolion a'r tîm
41.2%
46.5%
58.6%
65.0%
69.8%
69.2%
75.3%
89.8%
Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yng Nghomisiwn y Senedd
32.6%
34.6%
40.3%
35.9%
40.7%
41.4%
38.0%
60.7%
Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm
41.2%
43.5%
47.8%
46.7%
45.6%
47.8%
49.2%
66.5%
Rwy'n fodlon ar fy oriau gwaith.
74.0%
72.3%
70.6%
67.3%
73.2%
69.4%
72.5%
87.9%
Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol
44.4%
57.5%
60.8%
61.9%
64.3%
65.9%
60.3%
76.8%
Byddwn yn argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i'm sefydliad.
70.9%
78.0%
81.4%
80.2%
81.5%
79.0%
80.3%
90.5%
Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau
46.5%
56.9%
59.2%
72.3%
73.4%
74.9%
79.0%
93.2%
Rwy'n cael fy nhrin â pharch.
70.2%
67.0%
82.0%
85.4%
80.9%
85.1%
91.0%
Rwy'n cael digon o wybodaeth i wneud fy swydd yn dda.
57.8%
64.9%
79.4%
72.5%
75.4%
71.8%
73.2%
89.7%
.0%
25.0%
50.0%
75.0%
100.0%

# Rhestr Termau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Rhestr Termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| % | Mae'r canrannau yn yr adroddiad hwn ar gyfer y **Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle** a **Themâu Comisiwn y Senedd** wedi'u cyfrifo ar sail y sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn, ac a lenwyd drwy ddefnyddio’r raddfa 10 pwynt. |
| Graddfa 10 pwynt | Roedd y raddfa 10 pwynt a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddangos pa mor gryf y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt. Mae sgôr o 0 yn arwydd o anghytundeb cryf ac mewn cyferbyniad, mae sgôr o 10 yn arwydd o gytundeb cryf â'r cwestiwn dan sylw. |
| Demograffeg | Drwy gydol yr adroddiad hwn, dadansoddwyd a thrafod nifer o grwpiau demograffig. Mae'r ddemograffeg yn sectorau penodol ymhlith y bobl sy'n ymateb, megis grwpiau oedran. |
| WorkL Engaging Business | Y sefydliad partner ar gyfer yr arolwg y mae iddo’r nod o helpu sefydliadau i gael gweithlu hapusach, mwy ymgysylltiol a mwy cynhyrchiol. |
| Sgôr fyd-eang | Mae'r sgorau byd-eang yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dros 50,000+ o ganlyniadau arolwg Ymgysylltu â Busnes annibynnol, gan weithwyr mewn dros 25 o wahanol ddiwydiannau. |
| Mynegai Hapusrwydd | Cyfrifir y sgôr hapusrwydd gyffredinol ar sail cymedr sgorau’r Chwe Cham at Hapusrwydd. |
| Sgôr y Sector Cyhoeddus | Mae sgoriau’r sector cyhoeddus a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn gasgliad o ganlyniadau arolwg gan weithwyr sy'n gweithio yn y diwydiant hwn, gan gynnwys canlyniadau gan weithwyr Senedd yr Alban, y Swyddfa Gartref a’r Cyngor Prydeinig. |

# Termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Cwestiynau craidd | Mae naw cwestiwn craidd wedi'u cynnwys yn yr arolwg staff ers mis Chwefror 2012 (ac eithrio, 'Rwy'n cael fy nhrin â pharch gan y bobl rwy'n gweithio gyda nhw' na chafodd eu cynnwys yn arolwg mis Awst 2013):<br><br>Mae cyfraniadau unigolion a'r tîm yn cael eu nodi a'u dathlu gan fy rheolwr<br><br>Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y gwneir pethau yn y Senedd<br><br>Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau<br>-Rwy'n teimlo bod fy marn yn cael ei gwerthfawrogi (2012)<br>- Gofynnir am fy marn ac rwy'n rhan o newidiadau sy'n effeithio ar fy swydd (2013)<br>-Rwy'n teimlo fod fy rheolwr yn gofyn am fy marn a'i fod yn ei gwerthfawrogi (2015 ymlaen)<br><br>Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm<br><br>Rwy'n yn cael fy nhrin â pharch<br>-Rwy'n cael fy nhrin â pharch gan y bobl rwy'n gweithio gyda nhw (2019)<br><br>Rwy'n cael digon o wybodaeth i wneud fy swydd yn dda.<br>-Rwy'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnaf i wneud fy swydd yn dda (2019)<br><br>Rwy'n hapus gyda'r oriau rwy'n eu gweithio<br>-Rwy'n llwyddo i sicrhau cydbwysedd da rhwng fy mywyd gwaith a'm bywyd preifat (2019)<br><br>Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn ei gyfanrwydd yn cael ei reoli'n dda<br><br>Byddwn i'n argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i fy sefydliad.<br>-Byddwn i'n argymell bod y Cynulliad yn lle gwych i weithio ynddo (2019) |

# Rhestr Termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Themâu sy'n benodol i'r Senedd | Themâu sy'n cynnwys cwestiynau a ddewiswyd ac a grëwyd gan Gomisiwn y Senedd, ar wahân i'r Mynegai Hapusrwydd a Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle. |
| Thema'r Senedd - Urddas a Pharch | Cafodd cwestiynau ar urddas a pharch eu cynnwys am y tro cyntaf yn arolwg y Senedd ar gyfer 2018-19. Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â dealltwriaeth aelodau staff o bolisi Urddas a Pharch Comisiwn y Senedd. |
| Thema'r Senedd - Arweinyddiaeth a Rheoli Newid | Cwestiynau sy'n ymwneud â pherthnasoedd rheolwyr a rheoli newid sefydliadol yn effeithiol. |
| Thema'r Senedd - Dysgu a Datblygu | Cwestiynau i ddatblygu dealltwriaeth o fynediad staff at gyfleoedd dysgu a datblygu a'u hymgysylltiad â'r rhain i ddatblygu eu gyrfa. |
| Thema'r Senedd - Fy Rheolwr | Cwestiynau ynghylch perthynas aelod staff â'u rheolwr. |
| Thema'r Senedd - Fy nhîm | Cwestiynau ynghylch perthynas aelod o staff â'u cydweithwyr agos. |
| Thema'r Senedd - Diwylliant sefydliadol | Cwestiynau sy'n ymwneud â dealltwriaeth aelod staff o'r hyn y mae'r Senedd yma i'w wneud. |
| Thema'r Senedd - Y normal newydd | Thema newydd a gyflwynwyd i'r arolwg mewn ymateb i'r trefniadau gweithio newydd yn ystod y mesurau cadw pellter cymdeithasol. Mae'r cwestiynau hyn yn gyfuniad o gwestiynau a ofynnwyd mewn arolygon blynyddol blaenorol ac arolygon pwls mewnol, yn ogystal â chwestiynau newydd sy'n ymwneud yn benodol â phrofiad yn ystod y mesurau cadw pellter cymdeithasol. |

# Termau

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Chwe Cham at Hapusrwydd | Mae'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle yn fframwaith sy’n cynnwys y chwe sbardun allweddol o ran ymgysylltu â gweithwyr, hapusrwydd a llesiant. |
| Chwe Cham - Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth | Cwestiynau sy'n ymwneud â barn gweithwyr am eu cyflog, oriau a weithiwyd a'r gydnabyddiaeth a gânt yn eu swydd. |
| Chwe Cham - Rhannu Gwybodaeth | Cwestiynau a nodir i ddangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sianeli gwybodaeth a chyfathrebu. |
| Chwe Cham - Galluogi | Cwestiynau sy'n dehongli a oes gan weithwyr gyfleoedd i wneud penderfyniadau yn ogystal ag a ydynt wedi’u cymhwyso i gyflawni eu rolau'n effeithiol. |
| Chwe Cham - Llesiant | Cwestiynau sy'n ymwneud â llesiant meddyliol gweithwyr a'u barn am agweddau ar eu gwaith. |
| Chwe Cham - Ennyn Balchder | Mae cwestiynau ar y thema hon yn dehongli balchder gweithwyr a'r ymdeimlad o werth a gânt o weithio i'w sefydliad. |
| Chwe Cham - Boddhad Gwaith | Nod y cwestiynau oedd deall datblygiad personol gweithwyr a chryfder eu perthynas â'u rheolwyr priodol. |

*Dadansoddwyd a chategoreiddiwyd y data canlynol, pan oedd modd gwneud hynny, yn ôl y nodweddion gwarchodedig a gasglwyd yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Gwnaed hyn i roi dealltwriaeth ddyfnach a mwy ystyrlon i ni o Sgôr Hapusrwydd gweithwyr ar draws y sefydliad; yn ogystal, mae'n cyd-fynd â data a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau Monitro Gweithlu Recriwtio ac Amrywiaeth. Ni nodwyd unrhyw unigolion yn y broses hon, ac mae'r holl ddata wedi'u dadansoddi yn unol â GDPR.*

*Os cafodd y data eu crynhoi a'u casglu o dan derm sefydliadol y tu allan i'r opsiynau sydd ar gael yn yr arolwg, gwnaed hynny i alluogi dadansoddiad o ddata am grŵp cyfunol o bobl lle na fyddai data ar gael fel arall, yn unol â chanllawiau GDPR.*